# Cytgan Hymian Puccini

Trefniant: Helen Woods

## Gradd
Canolradd

## Am y gân hon
Mae'r 'Cytgan Hymian' yn dod o'r opera Madam Butterfly gan Giacomo Puccini. Cafodd Madam Butterfly ei pherfformio gyntaf yn 1904 a hon oedd ffefryn Puccini ei hun ymhlith ei operâu. Ysgrifennwyd y libreto (testun opera) gan Giacosa ac Illica ac mae'n seiliedig ar stori fer o'r un teitl a ysgrifennwyd gan John Luther Long (1898). Mae'r opera yn digwydd mewn tŷ sy'n edrych dros Nagasaki, Siapan, rhwng 1889 a 1892, ychydig cyn dechrau'r rhyfel rhwng Tseina a Siapan. Mae'r 'Cytgan Hymian' yn cael ei berfformio yn Act Dau ac yn cael ei ganu gan y corws, oddi ar y llwyfan, gan ddangos treigl amser.

## Rhychwant/Amrediad lleisiol
11th B♭ i E♭



## Fformat lleisiol
Dwy ran/Unsain

## Themâu/pynciau
- Opera
- Adrodd stori
- Trasiedi
- Diwylliant Siapaneaidd-Americanaidd

## Elfennau a nodweddion cerddorol
- Cyferbyniadau o legato (llyfn) a staccato (gwahanedig)
- Hymian/seiniau Cerddorfaol (onomatopoeia)
- Nodau hirion cynaledig/Rheolaeth anadlu da
- Motifau yn ailddigwydd/Trefniant cerddorfaol

## Ymarferion CânSing a argymhellir
- Ymarfer Corff Un (ymarfer chwaraeon)
- Ymarfer Anadlu Un (anadlu)

## Ymarferion
- Canwch bum nodyn cyntaf graddfa fwyaf i'r rhifau 1 – 5 (ee 1=canol C, 2=D, 3=E, 4=F a 5=G)
- Canwch bob nodyn yn llyfn (legato) heb unrhyw fylchau
- Canwch bob nodyn yn wahanedig/fyr (staccato) gyda bylchau rhwng nodau
- Canwch bob nodyn heblaw am rif 4, gadewch saib yn lle canu, ee F
- Canwch bob nodyn heblaw am rif 2 a 4, gadewch saib yn lle ee D neu F
- Rydych chi yn awr yn canu 1, 3 a 5, y cord triad mwyaf/gwasgar
- Yn lle canu'r rhifau, ceisiwch sain fel 'nah', 'baa', 'me' a 'plm'
- Dechreuwch eich triad ar nodyn newydd uwch (ee mae 1 yn D yn awr, 3 yn F# yn awr a 5 yn awr yn A)
- Dewiswch nodyn un newydd a gair newydd

## Geirfa
Legato: llinell lefn, felodig.

Graddfa Fwyaf: graddfa saith nodyn gyda sain nodweddiadol lawen.

Graddfa Leiaf: graddfa saith nodyn gyda sain nodweddiadol leddf.

Motif neu Motive: syniad cerddorol byr, ffigwr sy'n ailddigwydd, dernyn cerddodol neu ddilyniant o nodau sydd o ryw bwysigrwydd arbennig yn neu'n nodweddiadol o gyfansoddiad.

Pizzicato: techneg chwarae sy'n cynnwys plycio llinynnau offeryn llinynnol ee Ffidl, Fiola, Soddgrwth a Bas Dwbl.

Staccato: nodau wedi eu gwahanu oddi wrth ei gilydd.




Hawlfraint © CânSing Ltd 2017

# Cytgan Hymian

## Dysgu'r gân

- Chwaraewch recordiad perfformiad llawn yr 'Cytgan Hymian'. Dylai dysgwyr adnabod a chanolbwyntio ar yr adrannau gwahanol a'r gwrthgyferbyniad rhwng legato Llais 1 a staccato Llais 2. Pryd mae'r rhannau yr un fath?
- Chwaraewch Lais 2 yn unig a cheisiwch ddilyn yr alaw yn yr awyr gyda'ch llaw. Pryd mae'r nodau yn mynd i lawr a phryd maen nhw'n mynd i fyny? Faint o nodau gwahanol sy'n cael eu canu yn yr ymadrodd dau far cyntaf?




- Mae pedwar o nodau gwahanol yn yr ymadrodd dau far cyntaf. Byddem yn argymell defnydd patrymu traw i gynrychioli'r nodau yn weledol.
- Yr un cyntaf yw'r nodyn allweddol – y pwysicaf o'r cwbl. Daliwch eich llaw ar lefel brest ar gyfer y nodyn hwn. Mae'r ail nodyn yn is felly mae'r llaw yn symud i lawr tuag at ein coesau. Yn ôl i lefel brest cyntaf i ailadrodd y nodyn cyntaf.
- Yn awr at nodyn uwch felly symudwch eich llaw at lefel y llygad. Yna'r nodyn uchaf felly mae'r llaw yn symud uwchlaw pen (fel petai het ar eich pen), yna yn ôl at lefel llygad ac yn olaf lefel brest. Y symudiadau patrymu traw wedyn fyddai: brest, coes, brest, llygad, het, llygad, brest.

*Noder: Yn y patrymu traw, osgowch symudiadau llaw sy'n uchel iawn neu'n isel iawn. Ceisiwch beidio â gorbwysleisio'r seibiau gan y bydd hyn yn debygol o achosi dysgwyr i roi straen ar eu lleisiau. Os ydych yn teimlo'n hyderus gyda'r dechneg patrymu traw, byddem wedyn yn argymell cadw'r seibiau patrymu traw rhwng trwyn (i'r nodyn uchaf) a bogel (i'r nodyn isaf).*

- Ailadroddwch y symudiadau hyn wrth chwarae Llais 2 o'r Cyflwyniad.
- Unwaith y mae patrwm y traw yn sicr, canwch gyda Llais 2. Y sain i'w greu yw 'plm,' i ddynwared sain llinynnau pizzicato (plyciedig) y gerddorfa. Bydd hyn yn gwneud pob nodyn yn staccato.
- Cyfrifwch sawl gwaith mae'r motif pizzicato rhythm/cerddorfa nodweddiadol yn cael ei glywed yn adran A. Ateb 3 gwaith.
- Yn Adran A mae dau far (bar 9 a 10) lle mae'r nodau yn uwch ac yn creu cord lleiaf (trist) nid mwyaf (hapus). Mae'r patrymu traw yn aros yr un fath: Brest, coes, brest, llygad, het, llygad, brest. Gallech ddewis dangos y donyddiaeth leiaf hon wrth bwyntio eich bawd i lawr ar eich llaw patrymu traw. Canwch y ddau far hyn gyda Llais 2.
- Gwrandewch a phatrymwch draw i Lais 2 Adran A a chofiwch ychwanegu bodiau i lawr ar gyfer bar 9 a 10. Canwch Lais 2 Cyflwyniad ac Adran A.
- Gwrandewch ar alaw legato Llais 1 (nah) yn Adran A. Gallwch hefyd ddangos siâp yr alaw gyda phatrymu traw. Dechreuwch ar lefel brest i ddangos bod y ddau lais yn dechrau ar yr un nodyn (E♭).
- Gallech ychwanegu yn y geiriau.




- Adran A, nodau hir, nodau hir. Canwch y geiriau hyn i ymarfer alaw Adran A.
- Sicrhewch fod cantorion yn cymryd anadl da (heb godi eu hysgwyddau) a chynnal y nodau hir fel y dangoswyd gan y lleisiau ar y traciau.
- Pan fo Llais 1 Adran A (nah) yn hyderus, newidiwch i Lais 1 (hum).
- Pan ydych yn Hymian mae'r llais yn cael ei ailgyfeirio i'r ceudod trwynol. Nid yw'r llais yn mynd allan trwy'r geg ond trwy'r trwyn. Gallwch arbrofi gyda hymian ceg agored a chaeedig, gan gadw'r ên wedi ymlacio. Dylai ansawdd y tôn ac atsain y nodau hymiedig wella os yw'r daflod feddal (to'r ceg) yn fwaog am i fyny. Mae'r safle hwn, ochr yn ochr â gên wedi ymlacio ac wedi ei gwthio yn ôl ychydig, yn cynyddu'r gofod yn y ceudod cegol yn fawr.
- Rhowch Lais 1 a 2 gyda'i gilydd ar gyfer y Cyflwyniad ac Adran A. Perfformiwch eto a'r tro hwn gadewch i'r trac barhau trwy Adran B a C.

Hawlfraint © CânSing Ltd 2017

# Cytgan Hymian

- Gwrandewch ar adran B, mae gan Lais 2 batrwm newydd. Ar gyfer hyn gallech ddefnyddio patrymu traw eto i gynrychioli'r patrwm yn weledol ee i fyny, i lawr, i fyny, i lawr, i fyny, i lawr, i fyny.
- Chwaraewch, gan wrando a phatrymu traw gydag Adran B Llais 2 a phan yn hyderus ychwanegwch yn y llais 'plm'.
- Gallech ychwanegu yn y geiriau.




- Canwch y geiriau hyn i ymarfer alaw Adran B.
- Fel gydag adran A, sicrhewch fod cantorion yn cymryd anadl da (heb godi eu hysgwyddau) ac yn cynnal y nodau hir fel y dangoswyd gan y lleisiau ar y traciau.
- Pan mae alaw Adran B Llais 1 (nah) yn hyderus, newidiwch i Lais 1 (hum).
- Mae Adran C i gyd yn legato ac yn unsain (Llais 2 yn ymuno â Llais 1). Dyma'r adran hiraf a mwy na thebyg yr un fwyaf dramatig. Pa eiriau fyddai'n gweithio'n dda yma? Arbrofwch gyda rhai newydd. Oes geiriau fydd yn helpu i wybod pryd i gymryd anadl?
- Pan mae'r alaw yn hyderus newidiwch i 'nah' ar gyfer pob nodyn. Pan mae nodau ac anadlu gyda'i gilydd, newidiwch i 'hum'.
- Rhowch gynnig ar y darn cyfan. Ydyn ni'n swnio fel treigl amser digyffro? Meddyliwch am y cydbwysedd rhwng Llais1 (alaw) a Llais 2 (cyfeiliant)? Oes angen i'r llinynnau pizzicato yn Llais 2 fod yn dawelach fel nad ydynt yn drech na'r hymian yn Llais 1?



## Myfyrio/cloriannu

- Ydy naws y gân hon yn hapus neu drist? Beth sy'n dylanwadu ar eich ateb? ee tonyddiaeth (mwyaf/lleiaf), tempo (cyflym/araf) neu offeryniaeth y cyfeiliant?
- Sut mae'r darn hwn o gerddoriaeth yn cyfleu'r stori heb unrhyw eiriau yn cael eu canu?
- Pa ffordd arall allai gwneuthurwr theatr/opera ddangos treigl amser?
- Archwiliwch y cysylltiadau rhwng yr opera hon a'r darnau theatr cerddorol *Miss Saigon* (mae'r stori yn seiliedig ar *Madam Butterfly*) a *Les Misérables* (mae'r gân 'Bring Him Home' yn defnyddio'r un motif ag adran B yn yr 'Cytgan Hymian').
- Mae tripled yn y darn hwn, allwch chi ddod o hyd iddo? Beth yw tripled?

Hawlfraint © CânSing Ltd 2017

# Cytgan Hymian



**Mae stori *Madam Butterfly* yn seiliedig ar stori fer o'r un teitl a ysgrifennwyd gan John Luther Long. Mae'n digwydd yn Nagasaki, Siapan rhwng 1889 a 1892.**

## Act un

Mae Lefftenant Americanaidd, Pinkerton yn gwasanaethu yn Nagasaki ac mae'n penderfynu treulio'r amser yn hapus tra yn Siapan wrth briodi y geisha Cio-Cio-San (Madam Butterfly). Mae'n dweud wrth y conswl Americanaidd, Sharpless, ei fod yn bwriadu cael 'gwraig go iawn' pan mae'n dychwelyd i America. Mae'r seremoni yn digwydd ond tarfir arni gan ewythr Butterfly – sy'n ei melltithio am wadu ei chrefydd. Mae ei theulu a'i ffrindiau yn troi arni ac mae hi'n cael ei gwrthod. Gadawant ac mae Pinkerton yn cael ei adael ar ei ben ei hun i gysuro ei wraig newydd.

## Act dau (rhan un)

Tair blynedd yn ddiweddarach, mae Pinkerton wedi mynd ond mae Butterfly yn aros yn amyneddgar am ei gŵr i ddychwelyd (nid yw ei gwas Suzuki yn credu y daw yn ôl). Mae Butterfly yn iawn, bydd e'n dychwelyd, ond gyda'i wraig Americanaidd, Kate. Anfonir Sharpless at Butterfly i dorri'r newyddion iddi. Mae ef a Suzuki yn ceisio paratoi Butterfly ond mae gan Butterfly a Pinkerton blentyn gyda'i gilydd. Mae canon yr harbwr yn cyhoeddi llong Pinkerton.

## Intermezzo

Yr Cytgan Hymian oedd ffordd gerddorol Puccini o ddangos amynedd digyffro Butterfly. Fe'i canwyd, oddi ar y llwyfan, gan y corws.

## Act dau (rhan dau)

Mae Suzuki yn cyfarch Pinkerton, Kate a Sharpless. Mae Kate yn mynnu mabwysiadu'r plentyn ac mae Pinkerton yn gadael yn hytrach na wynebu Butterfly. Mae Pinkerton yn rhoi arian i Sharpless i dalu Butterfly ond mae hi'n gwrthod. Mae Butterfly yn dweud ffarwel wrth ei phlentyn ac yn lladd ei hun gyda chyllell ei thad ychydig cyn i Pinkerton ddychwelyd i gasglu ei mab.

*Lluniau: Jeremy Abrahams*

Hawlfraint © CânSing Ltd 2017